# Modelau Rhannu Gwybodaeth mewn Lleoliadau Gofal Cymdeithasol: Adolygiad cyflym

Rhif yr adroddiad: RR0026 (Gorffennaf 2024)

CRYNODEB GWEITHREDOL

## Beth yw Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon wrth roi sylw i ragfarn.

## Ar gyfer pwy mae'r Adolygiad Cyflym hwn?

Cynhaliwyd yr Adolygiad Cyflym hwn ar gais gan Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn deall pa fathau o rannu gwybodaeth sydd wedi'u rhoi ar waith mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lunio eu dull o rannu gwybodaeth a chefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol i roi'r strategaethau hyn ar waith.

## Cefndir/Nod Adolygiad Cyflym

Yn 2018, cyhoeddodd Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) 'Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2018-2023' i wreiddio tystiolaeth ymchwil mewn ymarfer, cynllunio a pholisi. Datblygodd GCC gynnig tystiolaeth i helpu darparwyr gofal cymdeithasol, arweinwyr a dylunwyr i ddefnyddio tystiolaeth ymchwil. Dadansoddwyd canfyddiadau'r adolygiad cyflym hwn yn erbyn dull presennol GCC o rannu gwybodaeth i ystyried addasiadau posibl i'w halinio ag arferion byd-eang.

## Canlyniadau Results

*Diweddarwch y sylfaen dystiolaeth*

- Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth a oedd ar gael hyd at 16 Mai 2024.

*Maint y sylfaen dystiolaeth*

- Nodwyd pum astudiaeth ddisgrifiadol. Un astudiaeth achos, dau adolygiad cwmpasu gydag un â map tystiolaeth, disgrifiad o adnoddau tystiolaeth ar-lein ac un gwerthusiad gwasanaeth. Daeth canfyddiadau'r astudiaeth o'r DU, UDA, Awstralia, Canada, yr Iseldiroedd, Sweden, Tsieina, a gwledydd Ewropeaidd ac Asiaidd eraill.
- Mae'r lleoliadau gofal cymdeithasol a gwmpaswyd yn y rhain yn cynnwys lles ac amddiffyn plant, gofal dementia, camddefnyddio sylweddau a thriniaeth ar gyfer dibyniaeth, gofal plant a theuluoedd, gofal anabledd meddyliol a chorfforol, gofal yr henoed, cymorth cymdeithasol/cymorth incwm ac atal trais.

*Prif ganfyddiadau*

- Mae'r dulliau o rannu gwybodaeth a ddisgrifir yn yr astudiaethau a gynhwyswyd yn cynnwys adnoddau digidol ac amlgyfrwng, seminarau a chynulliadau ffurfiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, offer ffisegol ac adnoddau addysgol, strategaethau trosglwyddo gwybodaeth cynhwysfawr, pyrth a thai clirio ar y we, a chymorth uniongyrchol gan ymarferwyr a chrynodebau ymchwil.
- Mae'r pum astudiaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad yn cyd-fynd ag un neu fwy o feysydd fframweithiau rhannu gwybodaeth Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC): mae tair yn cyd-

fynd â lledaenu, tair â chyfnewid, dau â brocera, un â chyd-greu, ac un â meithrin sgiliau a galluedd.

- Nid asesodd yr adolygiad ansawdd a thrylwyredd methodolegol yr astudiaethau a gynhwyswyd oherwydd eu natur ddisgrifiadol gynhenid o'r dystiolaeth, a oedd yn cynnwys adolygiadau cwmpasu, disgrifiadau o adnoddau tystiolaeth ar-lein, astudiaethau achos, a gwerthusiadau gwasanaeth.

## Goblygiadau Ymchwil a Bylchau Tystiolaeth

- Mae angen cynnal ymchwil yn y dyfodol i ddeall y strategaethau rhannu gwybodaeth mwyaf effeithiol mewn lleoliadau gofal cymdeithasol.
- Dylid cynnwys cynllunio a gwerthuso fel rhan o unrhyw strategaeth rhannu gwybodaeth ac ymyriad gwella.

## Goblygiadau polisi ac ymarfer

Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cefnogi'r canlynol:

- Integreiddio **Llwyfannau Gwybodaeth**: Dylai fframweithiau polisi annog integreiddio tai clirio ar y we a llwyfannau digidol eraill sy'n lledaenu arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws sectorau gofal cymdeithasol. Gall yr integreiddio hwn hwyluso mwy o hygyrchedd a thryloywder gwybodaeth i weithwyr proffesiynol, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a'r cyhoedd. Mae hyn yn cyd-fynd â maes **lledaenu** fframwaith GCC.

- Hyrwyddo **Cydweithio Rhyngddisgyblaethol**: Dylai polisïau hybu cydweithio rhyngddisgyblaethol ymhlith ymchwilwyr, ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaethau a llunwyr polisi. Gall y cydweithio hwn feithrin arloesedd, gwella perthnasedd canfyddiadau ymchwil i ymarfer a chefnogi strategaethau rhannu gwybodaeth cynhwysfawr. Mae hyn yn cyd-fynd â maes **brocera** fframwaith GCC.

- Mabwysiadu **Strategaethau Rhannu Gwybodaeth Amrywiol**: Dylai ymarferwyr fabwysiadu strategaethau rhannu gwybodaeth amrywiol megis adnoddau digidol, seminarau cyfnewid gwybodaeth, a dulliau trosglwyddo gwybodaeth cynhwysfawr. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod ymyriadau'n cael eu teilwra i anghenion a chyd-destunau penodol gwahanol leoliadau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cyd-fynd â **meysydd cyfnewid a chyd-greu** fframwaith GCC.

- **Meithrin Galluedd:** Yr angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus a meithrin galluedd ymhlith ymarferwyr i wella eu sgiliau o ran cyrchu a dehongli tystiolaeth ymchwil a'r roi ar waith yn ymarferol. Dylid blaenoriaethu rhaglenni hyfforddi, gweithdai a chyfleoedd mentora i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Mae hyn yn cyd-fynd â meysydd **cyfnewid a meithrin galluedd a sgiliau** fframwaith GCC.

- **Gwerthuso ac Adborth**: Dylai ymarferwyr roi fframweithiau gwerthuso cadarn ar waith i asesu effaith ymyriadau rhannu gwybodaeth dros amser. Gall dolenni adborth rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr lywio gwelliannau ailadroddol i strategaethau a gwella eu heffeithiolrwydd mewn lleoliadau byd go iawn. **Nid yw hyn wedi'i gynnwys yn benodol** ym meysydd fframwaith GCC a gellid ei ystyried fel maes ychwanegol yn eu fframwaith.